

# Rhestr Wirio Sefydli

Arfer dda ar gyfer ANG mewn ysgolion



# Rhestr wirio arfer dda ar gyfer ANG

Os NA yw'r ateb i unrhyw un o'r cwestiynau isod yna, fel aelod newydd gymhwyso o'r NUT, dylech drafod y mater gyda'ch cynrychiolydd NUT yn y lie cyntaf. Gofynnwch i gydweithiwr os nad ydych yn sicr pwy yw eich cynrychiolydd. Os nad oes cynrychiolydd NUT yn eich gweithle, yn Lloegr dylech gysylltu ag Adviceline yr NUT (**020 3006 6266** neu **nutadviceline@nut.org.uk**) ac, yng Nghymru, NUT Cymru (**029 2049 1818** neu **cymru.wales@nut.org.uk**).

- Ydych chi wedi llwyddo ym mhob un o'r profion sgiliau SAC?  
(Dim ond yn berthnasol os i chi hyfforddi yn Lloegr).
- Oes tiwtor sefydlu wedi'i benodi i'ch cefnogi (Lloegr) neu fentor ysgol (Cymru)?
- A'ch anogwyd chi i fod yn rhan o gynllunio'ch rhaglen sefydlu?
- A dderbynioch raglen ar gyfer eich holl gweithgareddau sefydlu, gan gynnwys arsylwadau, adolygiadau proffesiynol o ddatblygiad, gweithgareddau datblygiad proffesiynol penodol i chi a chyfarfodydd asesu ffurfiol?
- Ydych chi'n derbyn copïau o bob cofnod ysgrifenedig sy'n berthnasol i'ch asesu?
- A roddwyd i chi enw rhywun yn y corff perthnasol y gallwch godi eich pryderon â nhw am eich cyfnod sefydlu?

- Os yn berthnasol, a benodwyd mentor allanol i chi? (Dim ond os ydych chi'n addysgu yng Nghymru).
- Ydych chi'n hapus gyda chynnwys a/neu ch(g)yflwyniad eich rhaglen sefydlu?
- Ydych chi'n derbyn eich hawl i faich gwaith addysgu lai? Mae'r STPCD yn nodi na ddylech addysgu am fwy na 90 y cant o'r amser o athrawon eraill yn yr ysgol sydd ar y brif raddfa gyflog (heb bwyntiau cyfrifoldeb). A yw hyn yn ychwanegol i'ch 10 y cant o amser CPA?
- Ydych chi'n derbyn eich cyflog mewn pryd, yn unol â'ch cyfarwyddiadau?
- A weloch chi eich disgrifiad swydd? Ydych chi'n teimlo ei fod yn rhesymol?
- Ydych chi'n addysgu'r ystod oedran a/neu'r pynciau i chi hyfforddi i'w dysgu (Cymru) neu i chi gael eich cyflogi i'w addysgu (Lloegr)?
- Os ydych chi'n dysgu dosbarthiadau anodd, a dderbynioch chi gefnogaeth ychwanegol?
- Oes gennych chi gytundeb parhaol?
- Os ydych chi'n gweithio fel athro cyflenwi yn Lloegr, gyda chytundeb tymor neu fwy, ydy'ch pennaeth wedi cytuno o flaen llaw faint bydd y cyfnod hwnnw o gyflogaeth yn cyfrif tuag at eich cyfnod sefydlu?
- Os ydych chi'n gweithio fel athro cyflenwi yng Nghymru, ydych chi'n ymwybodol bod pob cyfnod cyflenwi yn cyfrif tuag at eich cyfnod sefydlu? *A lenwoch chi'r Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor I Athrawes Gyflenwi Fyrdymor* o wefan Cyngor y Gweithlu Addysg o fewn deng niwrnod o ddechrau gwaith cyflenwi?
- A dderbynioch wybodaeth lawn am yr ysgol, eich cytundeb cyflogaeth, amserlen, trefniadau cefnogi cyfnod sefydlu a phob polisi ysgol berthnasol?
- Ydych chi'n hyderus eich bod yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig ohonoch chi yn ystod eich cyfnod sefydlu, gan gynnwys sut i ddefnyddio eich proffil dechrau gyrfa (Cymru)?
- Oes mynediad hawdd gennych chi i gopi o gylchlythyr llywodraeth Cymru neu arweiniad statudol yr Adran Addysg yn Lloegr ar sefydlu?

# Cymwys i addysgu yn 2016?

Cael aelodaeth  
lawn tan 2018  
am ddim ond



Ffoniwch neu ewch ar lein er mwyn uwchraddio o  
aelodaeth myfyriwr i aelodaeth lawn o'r NUT.

**Llinell ymuno:**

**020 7380 6369**

Llun - Gwener (9yb-5yh)

**Neu ewch i'r wefan**

**[www.teachers.org.uk/join](http://www.teachers.org.uk/join)**